Cyflwyno'r Gwobrau Mentrau Cymdeithasol newydd sbon

O arlwyo i goffi, gofal iechyd i dai, ac ailgylchu i adfywio: busnesau yw mentrau cymdeithasol sy'n masnachu ar gyfer pwrpasau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Gwobrau Mentrau Cymdeithasol yn gystadleuaeth newydd sydd â'r nod o gydnabod a chefnogi'r gwaith hanfodol a wneir gan y mentrau cymdeithasol mwyaf llwyddiannus yn y DU.

Lluniwyd y Gwobrau fel bod y DU gyfan yn cymryd rhan a bydd yn cynnwys pleidlais ar-lein gan y cyhoedd i ddod o hyd i'r enillwyr.

Mae'r ystod eang a dull cwbl newydd y Gwobrau hyn yn rhoi cyfle newydd cyffrous i'r mudiad mentrau cymdeithasol ddathlu ei amrywiaeth a'i gryfder.

Does dim gwahaniaeth pa fath o fenter gymdeithasol rydych yn gyfrifol amdani na'i maint, y wobr hon yw'ch cyfle i ennill i fyny at £5000.00 ac ennill llwyfan cenedlaethol ar gyfer eich busnes.

"Mae'r mentrau cymdeithasol gorau'n fodelau busnes arloesol ac ysbrydoledig sy'n profi'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd gwerthoedd cymdeithasol ac amgylcheddol wrth wraidd arferion busnes.

"Mae blys cyhoeddus am fusnes sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, ac mae gan fentrau cymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae er mwyn creu economi mwy cyfrifol sy'n perthyn i'r dyfodol. Ledled y DU, mae mentrau cymdeithasol yn datrys rhai o ofidiau mwyaf dybryd ein cymunedau.

Rydym yn falch iawn ein bod yn cefnogi'r Gwobrau Menter Gymdeithasol i wobrwyo a hyrwyddo mentrau cymdeithasol gorau Prydain."

***Angela Smith**, Gweinidog ar gyfer y Trydydd Sector, Swyddfa'r Cabinet*

Ynghylch y Gwobrau

Pwy sy'n gyfrifol am y Gwobrau Menter Gymdeithasol?
Y Gynghrair Menter Gymdeithasol - corff cenedlaethol y DU ar gyfer y mudiad menter gymdeithasol ar y cyd â Swyddfa'r Trydydd Sector; yr Adran ar gyfer Plant, Ysgolion a Theuluoedd; a'r Adran ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol - sy'n gyfrifol am y Gwobrau Menter Gymdeithasol.

Noddir y Gwobrau gan Partnerships UK, Banc Unity Trust ac Ymddiriedolaeth Menter Teuluoedd Cymru.

Beth yw menter gymdeithasol?
Mentrau cymdeithasol yw busnesau sy'n masnachu ar gyfer pwrpasau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Maent yn arbennig oherwydd bod eu pwrpas cymdeithasol a/neu amgylcheddol yn gwbl ganolog i'r hyn a wnânt – ail-fuddsoddir eu helw i gynnal a gwella eu cenhadaeth ar gyfer newid cadarnhaol.

Mae enghreifftiau adnabyddus yn cynnwys: *Divine Chocolate, The Big Issue,* a *Cafédirect,* ond mae miloedd o fentrau cymdeithasol llwyddiannus eraill yn gweithio ledled y wlad mewn meysydd sy'n amrywio o iechyd a gofal cymdeithasol i ailgylchu a chludiant cymunedol.

Pwy sy'n gallu cymryd rhan?
Mae croeso i bob busnes gymryd rhan yn y Gwobrau beth bynnag yw eu maint neu strwythurau cyfreithiol ond bod y rhan fwyaf o'u hincwm yn dod drwy fasnachu a bod y rhan fwyaf o'u helw yn cael ei ddefnyddio i wella targedau cymdeithasol neu amgylcheddol.

Mae cystadleuaeth "Menter Gymdeithasol mewn Ysgolion" y mae'r Gynghrair yn gyfrifol amdani ochr yn ochr â'r prif Wobrau. Mae'r wobr hon am y prosiect menter gymdeithasol mewn ysgol orau sy'n cynnwys pawb o'r disgyblion i'r rhieni.

Sut mae'r gystadleuaeth yn gweithio?
Mae'r Gwobrau Menter Gymdeithasol yn cynnwys dau gam.

Yn gyntaf, bydd y pedwar rhwydwaith menter gymdeithasol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru'n cynnal cystadlaethau rhanbarthol i wobrwyo mewn tri chategori:

- **Y Fenter Gymdeithasol Orau** - yn gweithredu am dros dair blynedd, trosiant o £1miliwn a mwy
- **Y Fenter Gymdeithasol Orau** - yn gweithredu am dros dair blynedd, trosiant o lai nag £1miliwn
- **Y Fenter Gymdeithasol Newydd Orau** - yn gweithredu ers llai na thair blynedd gyda chyfrifon am un flwyddyn o leiaf

Dewisir yr enillwyr gan banel o feirniaid a oruchwylir gan y rhwydwaith rhanbarthol.

Bydd pob un o'r pedair cenedl yn cyhoeddi eu tri enillydd ar ddiwrnod Menter Gymdeithasol, Tachwedd 19, 2009.

Bydd ail gam y Gwobrau'n golygu bod y deuddeg menter gymdeithasol hyn yn cystadlu i ennill gwobr y DU yn eu categori.

Bydd wyth enillydd categorïau'r Fenter Gymdeithasol Sefydledig yn cael eu rhoi ger bron yn ogystal i ennill y wobr fawr gyffredinol sef Menter Gymdeithasol y Flwyddyn.

Penderfynir enillwyr yr ail gam drwy bleidlais ar-lein rhwng Tachwedd 20 - 30 a chyhoeddir y buddugwyr mewn digwyddiad gala yn Llundain ar Ragfyr 3.

I helpu'r cyhoedd i ddewis eu henillwyr, bydd y wefan yn dangos fideos cyhoeddusrwydd byr sy'n esbonio'r hyn y mae pob menter gymdeithasol yn ei wneud, a sut y maent yn ei wneud.

Bydd gwobr bellach yn cael ei chyflwyno'n ogystal yn y digwyddiad gala ym mis Rhagfyr am y Fenter Gymdeithasol Orau mewn Ysgolion. Rheolir y wobr hon gan y Gynghrair Menter Gymdeithasol a bydd

yn gweithio i amserlen wahanol i'r Gwobrau eraill. Bydd yn gwobrwyo'r fenter gymdeithasol orau sy'n gweithredu mewn ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol 08/09.

Mae'n rhaid derbyn ceisiadau am y Gwobrau yn y cenhedloedd erbyn Medi 28, 2009. Mae gan ysgolion sydd am gystadlu am y wobr Menter Gymdeithasol Orau mewn Ysgolion tan Hydref 26, 2009 i gyflwyno eu ffurflenni cais.

Beth y mae'r beirniaid yn chwilio amdano?
Beirniadir pob ymgeisydd ar y meini prawf canlynol:

- Prawf o'r effaith ar gymdeithas a/neu amgylchedd –
- Tystiolaeth am arloesedd mewn dulliau i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol a/neu amgylcheddol
- Ansawdd y busnes – dadansoddi cyfrifon, amcanion y cwmni a chynlluniau busnes yn y dyfodol

Beth yw'r gwobrau?

Cynigir gwobrau ariannol o i fyny at £5,000 i bob enillydd yn ogystal â gwasanaethau cefnogi busnes mewn nwyddau gan sefydliadau lleol.

Bydd pob menter gymdeithasol sy'n ennill yn derbyn camera Flip y gallant ei ddefnyddio i greu eu fideo hyrwyddol eu hunain a nhw fydd yn berchen arno ar ôl y gystadleuaeth.

Telir treuliau i'r enillwyr er mwyn eu galluogi i fod yn bresennol yn y digwyddiad gala yn Llundain a fydd yn gyfle rhwydweithio gwych yn ogystal â phrif ddigwyddiad i ddathlu bywiogrwydd y mudiad menter gymdeithasol.

Mae cwmpas y gwobrau ledled y DU yn eu gwneud yn fodd gwych i hyrwyddo proffil cenedlaethol eich menter gymdeithasol.

Gall enillwyr y DU gyfan ennill i fyny at **£5000.00** a rhoddir lle amlwg iddynt mewn atodiad arbennig a gynhyrchir gan ein partner yn y cyfryngau, The Daily Telegraph.